



Anffurfio organau cenhedlu benywod: dyletswydd orfodol ar weithwyr fferyllol proffesiynol i adrodd

Dylai pob plentyn gael ei ddiogelu rhag cael ei gam-drin a'i esgeuluso. Rhaid i fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol rannu eu gofid os credant fod risg yn wynebu plentyn.

Beth yw'r ddyletswydd orfodol newydd ar weithwyr fferyllol proffesiynol yng Nghymru a Lloegr?

Mae gan bob gweithiwr fferyllol proffesiynol gyfrifoldeb cyfreithiol nawr¹ i adrodd i'r heddlu, ar lafar neu ar bapur:

- os gwelant arwyddion corfforol y gallai anffurfio organau cenhedlu benywod (AOCB) fod wedi ei wneud i ferch dan 18 oed², neu
- os dywed plentyn neu berson ifanc wrthyn nhw fod AOCB wedi digwydd iddi

Cyfrifoldeb y gweithiwr fferyllol proffesiynol yw'r ddyletswydd orfodol hon ac ni all drosglwyddo'r ddyletswydd i unrhyw un arall.

Nid oes dyletswydd orfodol benodol i adrodd am AOCB yn yr Alban. Ond mae dyletswyddau proffesiynol i fynegi pryderon, a fframweithiau diogelu plant, yn weithredol.

Sut mae adrodd am AOCB?

Mae'r Adran Iechyd (AI) wedi cynhyrchu canllawiau ac adnoddau i helpu gweithwyr fferyllol wrth adrodd, gan gynnwys

www.gov.uk/government/publications/fgm-mandatory-reporting-in-healthcare

¹ Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Troseddau Difrifol 2015 (adran 74)

² At ddibenion y ddyletswydd, yr oed perthnasol yw oed y ferch ar adeg datgelu neu adnabod AOCB.

Beth yw AOCB?

Mae AOCB³ yn cynnwys pob triniaeth sy'n tynnu organau rhywiol allanol menywod yn llwyr neu'n rhannol, neu unrhyw niwed arall i organau cenhedlu benywod at ddibenion nad ydynt yn rhai meddygol. Cyfeirir at AOCB weithiau fel enwaedu, anwytho, neu 'dorri'. Defnyddir termau mewn ieithoedd tramor hefyd weithiau, megis 'sunna'⁴.

Mae AOCB yn weithred droseddol ac mae'n anghyfreithlon ym Mhrydain⁵.

Beth ddywed ein safonau?

Mae gan weithwyr fferyllol ddyletswydd i:

- weithredu i ddiogelu pobl, yn enwedig plant ac oedolion sy'n agored i niwed
- rhoi'r flaenoriaeth i ofal y person dan sylw a gweithredu er ei fudd
- parchu a diogelu urddas person a gweithredu i gadw ei breifatrwydd a'i gyfrinachedd
- herio arferion gwaith ac ymddygiad gwael, a hysbysu eu cyflogwr ac awdurdodau perthnasol (gan gynnwys y CFC) yn syth am unrhyw ofidiau a allai fod ganddynt

³ Female Genital Mutilation Risk and Safeguarding- guidance for professionals Rhan 4

⁴ Multi-Agency Practice Guidelines: Female Genital Mutilation, Atodiad B

⁵ Yng Nghymru a Lloegr, dan Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003, yn yr Alban, dan Ddeddf Atal Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (Yr Alban) 2005, fel y diwygiwyd ill dwy gan Ddeddf Troseddau Difrifol 2015.

Adolygwyd Mai 2017

Mae'n gyfrifoldeb proffesiynol ar bob gweithiwr fferyllol proffesiynol i fynegi unrhyw ofidiau sydd ganddo am unigolion, gweithredoedd neu amgylchiadau a allai fod yn annerbyniol ac a allai arwain at risg i ddiogelwch y cyhoedd (**gweler canllawiau'r CFFC ar fynegi pryderon**).

Perchnogion fferyllfeydd a fferyllwyr goruchwyliol

Rhaid i berchnogion fferyllfeydd a fferyllwyr goruchwyliol sicrhau y cyrhaeddir ein safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig. Rhaid iddynt:

- gael gweithdrefnau diogelu yn eu lle
- sicrhau bod pob aelod staff wedi ei hyfforddi mewn diogelu plant a materion diogelu eraill

Dylai perchnogion a fferyllwyr goruchwyliol sicrhau bod pob aelod newydd o'u staff yn gwybod am y ddyletswydd orfodol i adrodd. Dylent hefyd adolygu eu polisiau ac arferion diogelu presennol i adlewyrchu hyn.

Pryd nad yw'r ddyletswydd adrodd yn weithredol?

Ni fydd y ddyletswydd adrodd yn weithredol:

- os gwêl gweithiwr fferyllol fod unigolyn arall yn gweithio yn yr un proffesiwn eisoes wedi adrodd wrth yr heddlu am yr un weithred AOCB
- mewn achosion pan fydd gweithiwr fferyllol proffesiynol yn credu y gallai plentyn neu berson ifanc fod yn wynebu risg AOCB
- mewn achosion lle amheuir bod AOCB wedi digwydd, ond heb eu gweld gan y gweithiwr fferyllol hwnnw neu'r achos heb ei adrodd wrthynt gan y plentyn neu berson ifanc hwnnw
- gyda menywod dros 18 oed. Mewn achosion o'r fath, rhaid parchu cyfrinachedd y fenyw os nad yw am weld unrhyw weithredu'n digwydd

Mewn achosion fel y rhain, rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol ddilyn protocolau diogelu lleol

Sut mae'r ddyletswydd newydd yn gweithio ochr yn ochr â chynnal cyfrinachedd?

Rhaid i weithwyr fferyllol barchu a diogelu urddas a phreifatrwydd pobl, a dim ond pan fo'r gyfraith yn mynnu bod yn rhaid iddynt, neu mewn amgylchiadau

arbennig, y dylent ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol heb gydsyniad.

Mae'r gyfraith yn caniatáu datgelu gwybodaeth gyfrinachol am gleifion mewn amgylchiadau penodol, gan gynnwys pan fo'n ofynnol o dan y gyfraith neu pan fydd datgelu er lles y cyhoedd (**gweler canllawiau'r CFFC ar gyfrinachedd**). Dywed canllawiau'r **Swyddfa Gartref** nad yw'r ddyletswydd adrodd yn torri unrhyw ofyniad cyfrinachedd nac unrhyw gyfyngiad arall ar ddatgelu a allai, fel arall, fod ar waith.

Beth fydd yn digwydd os bydd gweithiwr fferyllol proffesiynol yn peidio ag adrodd?

Mae adrodd am AOCB mewn plant a phobl ifanc dan 18 oed yn ddyletswydd orfodol ar weithwyr fferyllol proffesiynol yng Nghymru a Lloegr. Mae ein safonau rheoleiddio a chanllawiau yn glir ac yn berthnasol i weithwyr fferyllol proffesiynol ar hyd a lled Prydain. Gallai methu â chyrraedd ein safonau beryglu aelodaeth gweithiwr fferyllol ar ein cofrestr.

Canllawiau ac adnoddau eraill

Multi Agency Practice Guidelines: FGM (Llywodraeth EM, 2014) (yn berthnasol i Gymru a Lloegr yn unig)

Female Genital Mutilation (FGM) Information Resources gan Lywodraeth yr Alban

Y swyddfa Gartref: Mandatory Reporting of FGM:

Gwybodaeth weithdrefnol

Canllawiau Diogelu **Safeguarding women and girls at risk of FGM** (AI)

Health Education England **FGM e-learning resource**

Cymdeithas Genedlaethol Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) Llinell Gymorth Rhadffôn AOCB 0800 028 3550 **www.nspcc.org.uk/fgm**

Canllawiau ac adnoddau AOCB NHS Choices ar gyfer gweithwyr proffesiynol

Adran Iechyd: **taflen ynghylch AOCB**

Working Together to Safeguard Children (Mawrth 2015) (yn berthnasol i Loegr yn unig)

Cyngor Fferyllol Cyffredinol

25 Canada Square, Llundain E14 5LQ

F 020 3713 8000

E info@pharmacyregulation.org

 @TheGPhC

 TheGPhC

 /company/general-pharmaceutical-council

www.pharmacyregulation.org